



www.llennatur.com

Bwletin Llên Natur 22

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Rhagfyr 2009

Corn carw ffrwydrol a'r haf bach Mihangel



Llun Duncan Brown

PERYGL – mwsogl ffrwydrol ar safle cadwraeth coedwig

Gallai arwyddion Dim Ysmygu gael eu codi drwy goedwigoedd Ceredigion i gyd [yn enwedig ar ôl tywydd sych yr hydref hwn? Gol.]. Mae coedwigwyr wedi gwneud darganfyddiad ffrwydrol yn ymyl Tregaron. Canfuwyd cytrefi o Fwsogl Corn y Carw prin (*Lycopodium clavatum*) mewn arolwg cadwraeth cyn cwmpo coed. Yn awr, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru am sicrhau bod y mwsogl - sydd â sborau sy'n ffrwydrol ac a ddefnyddiwyd i wneud powdr fflachio yn nyddiau cynnar ffotograffiaeth – yn cael ei ddiogelu. "Yn y gorffennol roedd pris ar y mwsogl hwn oherwydd y powdr Lycopodium a wneid o'r sborau," meddai Rhodiwr Cadwraeth CC Cymru, Alan Enoch. 'Hyd yn oed yn awr os oes dwysedd digon uchel yn yr awyr gall fod yn gymysgedd ffrwydrol'. Ond erbyn heddiw mae'r planhigyn cyntefig hwn mewn perygl ac yn un o 101 o rywogaethau sy'n cael eu henwi yn flaenoriaeth uchel ar gyfer cadwraeth gan yr elusen planhigion gwyllt Plantlife. Mae newidiadau mewn rheoli tir wedi dinistrio llawer o'i gynefin naturiol yng Nghymru - ond y mae'n ffynnu ar safleoedd a grëwyd ddegawd yn ôl gan raglenni adeiladu llinellau ffyrdd CC Cymru. Mae'r mwsogl yn tyfu ar sgri ar ochr y ffordd yng Nghwm Berwyn a Moel Prysgau ger Tregaron. Mae Mwsogl Corn [nid mwsogl go iawn] y Carw wedi ymddangos neu ymledu yn y degawdau diwethaf ar nifer o safleoedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Ngheredigion, lle mae cau allan anifeiliaid sy'n pori a'r manau cymharol agored wrth ochrau'r ffyrdd yn rhoi amodau da iddo dyfu," meddai Arthur Chater, Cofnodydd i BSBI Ceredigion.

"Mae'n blanhigyn prin yn ne ddwyrain y wlad, ac mae'r safle agosaf nesaf, ger Hirnant, mewn cynefin ochr ffordd Coedwig tebyg. Mae'n blanhigyn anghyffredin yn y wlad drwyddi draw. Ni cheir mohono ond mewn tua 50 o safleoedd, ac mae'n dda cael gwybod am safle newydd lle caiff rywfaint o ddiogelwch."

Datganiad i'r Wasg gan y Comisiwn Coedwigaeth Hydref 2009

*Darllenwch fwy am yr Haf Bach Mihangel ar dudalen 3

Clubmosses have an unlikely link to showbiz. A powder known simply as lycopodium, consisting of dried spores of the common clubmoss, was used in Victorian theatre to produce flame-effects. A blown cloud of spores burned rapidly and brightly, but with little heat. It was considered safe by the standards of the time. How did anyone ever get the idea to burn clubmoss spores for a special effect?

Wikipedia



Yr Hen Dŷ Du

Yr Hen Dŷ Du, eiddo'r Egob Goodman gynt (1583-1656)



Dewiswyd Godfrey Goodman (1583-1656), yn ddeon Rochester yn 1621, ac yn esgob Caerloyw yn 1625. Pan ddaeth Siarl I i'r orsedd yn 1625 fe'i cafodd ei hun fwy a mwy heb gydymdeimlad â'r polisi crefyddol. Rhwng 1626 a 1640 yr oedd tystiolaeth yn crynhoi a awgrymai ei fod wedi troi'n Babydd. Yn 1640 fe'i carcharwyd am wrthod torri ei enw wrth ganonau Laud, eithr fe'i rhyddhawyd pan gytunodd i wneuthur hynny. Bu yng ngharchar ddwywaith wedi hynny cyn 1643 a chymerwyd y rhan fwyaf o'i eiddo oddi arno. Yn ystod rhan o'r cyfnod 1643-7 bu'n llochesu ar eiddo (Tŷ Du) a oedd ganddo yn Llanberis.. Cafodd tref Rhuthyn lesâd o dan ei ewyllys.

Criw o fyfyrwyr daearyddiaeth o Crewe ydy'r bobl ieuanc o flaen y tŷ Ymwelasant â Llanberis yn 1912 gan daro heibio'r Hen Dŷ Du ar y 14 Mehefin. Roedd yr hen dy yn gyfan pryd hynny ond yn dechrau dadfeilio yn ôl y disgrifiad o'r wythnos yn y llyfr o eiddo Arwyn Roberts *A Week's Work in Wales*. Mae'r tŷ yn sefyll o hyd ar y Clegyr. *Diolch i Dafydd Whiteside ac Eco'r Wyddfa Hydref 2009*

O'r Dyddiadur... Rhagfyr

6 Rhag 1330 *"here a great storm brought disaster to 600 acres in the manor of Newborough, 183 acres were destroyed by sand and tide, 11 cottages and 28 acres of farmland also submerged"* [A. Carr]

4 Rhag 1758 *I can give you no news from Portsmouth but that the Harbour is full of men of war of different Rates, and weather excessive cold. I never was in such a blagard of a place as Portsmth before and God send me safe as soon as possible out of it, the first night I came to a lodging I thought of Bardd gwsg [sic] where there is some place described in the lower region that bears a resemblance to it.* Llythyr John Owen i Evan Evans, Morrisiaid Môn

1 Rhag 1783 *Some ivy berries near full grown: others & often on the same twig, just out of bloom*

Dyddiadur Gilbert White

2 Rhag 1907 *little Megan danced about all the time. Reached Criccieth in pouring rain....[ar achlysur marwolaeth merch Lloyd George Mair Eluned Lloyd George]*

Dyddiadur Lloyd George, Amgueddfa LG, Criccieth

28 Rhag 1879 *gales caused the Taybridge disaster*

Nadolig 1939 *Mr. H. E. Forrest writes that a pair of Starlings ..were feeding young in a hole in an ash tree at Bayston Hill, Shrewsbury, at Christmas, 1939.*

British Birds

Cnùl a Glol

Mae'n siwr fod y rhan fwyaf ohonoch yn gyfarwydd, er dyddiau ysgol, â llinellau cyntaf "Elegy Written in a Country Churchyard", Thomas Gray, sef:

*'The curfew tolls the knell of parting day,
The lowing herd wind slowly o'er the lea,'*

Cerdd werth chweil. Ond efallai nad pawb sy'n gwybod fod hon wedi ei chyfieithu ddwywaith i'r Gymraeg, gan Syr John Morris-Jones, a chan T. Gwynn Jones. Mae J.M-J. wedi cadw'n glòs at y gerdd wreiddiol ac wedi creu cyfieithiad derbynol a darllenadwy dros ben. Mae T.G.J., ar y llaw arall, wedi llunio yr hyn a eilw yn 'Adwe Gymreig ar thema Elegy Thomas Gray', ac wedi ceisio cyfleu'r hyn a fynegir yn y penillion pedair llinell Saesneg mewn penillion tair llinell odledig gyda chyffyrddiadau cynganeddol yma ac acw, e.e. 'Nid â'r balch onid i'r bedd'. Gwnaeth T.G.J. gryn gamp, ond cyfieithiad J.M-J sy'n 'mynd â hi' yn fy marn i. Dyma'r ddwy linell gyntaf:

*'Cân y ddyhuddgloch gnul i dranc y dydd,
Try'r araf yrr dan frefu dros y ddôl;'*

Daeth 'curfew', llinell gyntaf Gray, o'r Hen Ffrangeg *couvrefeu*, sef 'cuddio tân', a'r hyn sydd tu cefn i hyn yw'r arferiad gynt o roi arwydd neu rybudd clywadwy - e.e. canu cloch - ar adeg arbennig gyda'r nos i hysbysu pawb ei bod yn amser 'diffodd' holl danau'r dref neu'r gwersyll i sicrhau na fyddai adeiladau yn mynd ar dân yn ystod y nos. Pan fyddai angen cadw tân 'i fynd' neu i fud-losgi dros nos, drwy roi llond rhaw lwythog o lo mân drosto, y ferf a ddefnyddiai Nain oedd 'huddo' - 'huddo'r tân', ac eglurir hyn yn y geiriadur fel to bank up the fire overnight, gyda'r nodyn ychwanegol: 'ond dichon mai talfyriad o anhuddo yw'r ffurf hon'. Nodir mewn lle arall mai'r un ystyr yn union sydd i hwn â dyhuddo, felly mae dyhuddgloch J.M-J. yn taro i'r dim yma. Ond at *knell* llinell gyntaf Gray yr oeddwn yn anelu, sef y gair a gyfieithir yn cnul gan J.M-J. (a T.G.J.). O droi at Eiriadur y Brifysgol, yr hyn a geir yw cnùl, clùl: benthyciad Saesneg Canol cnul 'knell'. Yng nghyfnod Saesneg Canol (rhwng 1150 a 1500 yn fras) byddai'r 'k' yn 'knell' yn cael ei seinio'n galed fel ein 'c' ni, ac mae'n ddi-ddorol sylwi fod yr 'l' ar diwedd 'cnul' wedi llwyddo rywsut i newid yr 'n' oedd o'i blaen yn 'l', a dyna 'clùl'. Ni wn sut yr ynganai J.M-J a T.G.J. eu 'cnul' hwy, ond mae G.P.C. yn nodi'n bendant iawn (â'r acen) mai odli â 'Rhyl' yn hytrach na 'mul' y mae'r gair.

Wrth edrych ar fap yr wythnos ddiwethaf sylwais ar yr enw 'Top-y-Glol' a chofio ar yr un pryd fod yna Glol arall ger Chwitffordd. O ble daeth hwn? Wedi chwilio, cael mai 'benthyciad' Saesneg (eto fyth!) o Knoll (bryncyn) ydi Glol, a'r sain 'l' yn hwn eto wedi newid yr 'n' yn 'l'. Wrth lwc, nid oedd 'l' ar ddiwedd y 'Knight' a roes, yn yr un cyfnod, yr enw Cnicht ar y mynydd sy'n sefyll fel marchog talsyth uwchben Croesor, neu ei enw heddiw fyddai Clicht.

Aled Jones, Penrhyndeudraeth

Mwy o LOCUSTAID YNG NGHYMRU

Dydd llun Medi 7ed gwelwyd locust yn ehedeg uwch ben chwarelau porthladd newydd Caergybi. Tynwyd sylw bachgen o'r enw Henry McGrath yn gyntaf ato, a chan feddwl mai rhyw aderyn dyeithr ydoedd, llwyddodd i'w ddal yn fyw. Mesurai o ddeutu tair modfedd o hyd, ac yr oedd yn cyfateb yn mhob dysgrifiad a roddir gan Buffon* o'r creadur dinystriol hwnw. [gweler Rhifyn 21, tudalen]

Baner Cymru 16 Medi 1857 Diolch i Steffan ab Owain

* **Georges-Louis Leclerc, Comte de Buffon** (1707-1788) naturiaethwr, mathemategydd, cosmolegydd ac awdur toreithiog Ffrengig.

Eira ym mis Mehefin



Tynnodd Steve Roddick y llun hwn o graffiti gan chwarelwr ar wal Pen y Garret, chwarel Dinorwig yn cofnodi eira ar yr Wyddfa ym mis Mehefin. Wyddoch chi am eira anhymhorol yng Nghymru? Meddai Huw Holland Jones: *The weather map for 13 June 1956 shows a NW airstream right from north of Iceland. I would think therefore the report of snow on Snowdon to be genuine. By the way, 11th June 1956 saw the heaviest 2 hour rainfall ever recorded in Britain, 155mm in 2 hours at Hewenden reservoir, near Halifax W Yorks. The depression that caused such intense rain moved east on the 12 and 13 June, allowing the cold air from the arctic regions to flood across Britain. Snow on our hills in the first 2 weeks of June was not unusual pre- the 1980's. I remember a deep snow cover on the Carneddau, Glyderau & Wyddfa in early June. And of course the famous outbreak of snow across all of Britain, right down to low lying ground, on June 2 1975, is famous.*

O'r Oriol: ehedydd y traeth



Roedd dau ehedydd y traeth ar draeth y Parlwr Du, Sir y Fflint, dydd Llun, Tachwedd 16, 2009. Dyma lun o un ohonynt.

Cyfrannwyd y llun gan Eifion Griffiths


“Haearn” ceffyl



Dyma ateb yr Amgueddfa Brydeinig i ymholiad Wil Williams, Bodorgan, i wrthrych a ddarganfuodd ei gyfaill gyda pheiriant synhwyro metal yn ddiweddar: *“It would appear that the Lion head object found by your friend is a copper alloy horse trapping, possibly a bridle boss however it is slightly smaller than the typical bridle boss. Bridle bosses are often found separated from the*

corresponding cheekpiece but their purpose can be identified by the two pierced lugs on the reverse, visible in the images enclosed with your letter. The bridle appears to be of post-medieval style although the use of a lion's head perhaps also suggest neo-classical influence. It could date between 17th - 19th Century. Although you are not required by the Treasure Act, you may like to notify your local Finds Liaison Officer: <http://www.finds.org.uk/involved/contacts.php>”

Haf bach Mihangel 2009 mewn graffiau



GLAW PWYSEDD HEULWEN TYMHEREDD
Y colofnau glas yn dynodi cymedr 1995-2008 a'r colofnau coch yn dynodi lefel 2009

Roedd Medi a Hydref eleni yn fwyn, yn sych ac yn braf ond er y gwasgedd uchel parhaus nid oedd yn arbennig o heulog. Ond roedd Hydref yn gynhesach nag arfer.

Data Huw Holland Jones Llys Awel, Waunfawr
Gwiliwch y rhifyn nesaf am hanes glaw Tachwedd....

Dinas Is - Cantre'r Gwaelod Llydaw




Y Brenin Gradlon yn dianc ar y Morfarch Cefflyn yn Argol, Llydaw

Cafodd Dinas Is [isel] ei sefydlu ar dir sych oddiar bae Douarnenez. Suddodd arfordir Llydaw yn raddol wedyn ac erbyn amser y brenin Gradlon bu Is dan ddwr ar bob llanw uchel. I warchod y ddinas amgeuwyd hi gan forglawdd gyda chlywd i dderbyn cychod ar lanw isel. Gradlon oedd ceidwad yr unig allwedd i'r glwyd. Is oedd dinas harddaf yn y byd ond o dan ddylanwad Dahut merch Gradlon daeth yn ddinas pechod. Arferai ladd ei chariadon ar ôl ei phartion mynych. Gresynodd Saint Winwaloe at lygredd Is a rhybuddiodd Dahut am gosb Duw, ond ni chymerodd unrhyw sylw. Un diwrnod daeth marchog mewn gwisg coch i'r ddinas, a hudodd Dahut ef ati. Torrodd storm ynghanol y nos a chlywyd y tonnau yn hyrddio yn erbyn y clawdd. “Gadewch i'r storm ruo” meddai Dahut i'r marchog, “mae giatiau'r ddinas yn gryf. Mae allwedd y glwyd am wddf fy nhad Gradlon”. Atebodd y marchog: “Gallet gymryd yr allwedd tra'n cyssgu”. Dygodd Dahut yr allwedd oddiwrth ei thad a'i roi i'r marchog - a oedd neb llai na'r diafol ei hun. Agorodd y marchog y glwyd a thasgodd don enfawr dros y ddinas gan ei boddi. Llwyddodd Gradlon a'i ferch i ddianc ar Morvarc'h y ceffyl hud. Ond meddai Sant Winaloe wrtho: “Gwthiwch y ddemones yna i'r dyfroedd” - ac fe wnaeth. Boddodd Dahut a throi yn for-forwyn ac ymgeleddodd Gradlon yn Quimper, a ddaeth wedyn yn brifddinas newydd iddo. Dywedir bod clychau Gwlad Is i'w clywed heddiw pan fydd y môr yn llonydd a dywedir y cyfyd Is unwaith eto pan gaiff Paris ei boddi. *Pa vo beuzet Paris, Ec'h adsavo Ker Is (Par-Is yn golygu "fel Is")*.

L l ê n y P e t h a u B y w

Lein bysgota'r paternostar...

..yw lein yn rhedeg o'r wialen, yna gwifren wedi ei chysylltu yn ei chanol fel bod yr un faint pob ochor. Yna lein wedyn o'r ddau ben i'r wifren tua troedfedd i lawr i'r bachyn. Byddai'r plwm yn bwysau ac yn cael ei hongian o ganol y wifren ar lein llawer byrach. Mae pump math o ffordd i glymu paternoster i bysgota, sef:



1. Paternoster sydd yn rhedeg lle mae'r bach yn symud i fyny ac i lawr hyd y lein.
 2. Paternoster gan bysgotwyr môr. Mae hon yn cael ei chlymu gyda dau fach yn hongian oddi wrthi. Hon fydd yn cael ei defnyddio amlaf.
 3. Paternoster ac un bach arni.
 4. Paternoster ar pwll rig - ddim wedi gweld hon o'r blaen.
 5. Paternoster i bysgota dŵr ffres, - hon yr un peth a'r un pysgota môr ond ar lein llawer ysgafnach. Mae'n gofyn clymu'r rhain yn ofalus ac wedi gwneud hyn mi fydd yn torri i lawr ar gael lein wedi tanglo felly yn rhoi gwell siawns i chi ddal pysgod gan y bydd yn gorwedd yn daclus ar waelod y môr.
- Tom Jones, Golan



Gan Emrys Edwards, fy hen athro Lladin ac RI (Astudiaethau Crefyddol) yn y Cownti Sgwll, Caernarfon ers llawer dydd y clywais gyntaf am Paternoster. Roedd ganddo chwilen yn ei ben am yr hyn a ystyriai yn ddiffyg crebwyll ar ran perchnogion siop hufen iâ Bertorelli a siop dodrefn Astons ar Faes y dref. Mynai'r "Philistiaid" hyn baentio muriau eu siopau, gan gynnwys arysgrif PATERNOSTER BUILDINGS mewn lliwiau gwahanol a'r lliwiau yn newid o un perchnogaeth i'r llall ar draws yr "O" a'r "S" yn y gair noster. Argraffdy oedd yr adeilad yn wreiddiol, ac mae'n debyg i'w berchen Hugh Humphries (1817-96) ei godi ar batrwm argraffdy o'r un enw yn Llundain. "Ein Tad" yw ystyr *pater noster* ac o'r gair *pater* cawn ein gair pader. Pechu ddwywaith felly oedd hi yng ngolwg yr hen athro - pechu'r Lladin a phechu'r Ffydd. (A siop hufen ia Eidalaid o bawb...wel wir!)

Meini melin.....



Dyma felin gyntaf dynol ryw (uchod) - breuan o gloddfa Oes yr Haearn yn n y f f r y n Abergwyngregyn...ac ar y chwith, Y Garreg Lâs, SN778201 sydd rhwng y Mynydd Du a Bannau Caerfyrddin ar uchder o 2028 troedfedd.

Cyfrannwyd y llun a'r cofnod gan Ieuan Roberts



Roedd y bwrdd hwn mewn gardd yn Normandi

Sesiwn dda ym Mhorth Sgaden

(25 Hydref 2009) - Porth Ysgaden, Llŷn. Sesiwn dda bore 'ma yn y gwynt cryf - trochydd gyddfddu agos, 4 trochydd mawr, llydandroedd llwyd, 12 Gwylan Môr y Canoldir, gwylog du, un aderyn drycin Manaw hwy'r ynghyd a'r adar arferol. Neis iawn, y tro cynta i mi weld trochydd gyddfddu yn hedfan! Roedd y "Meds" [gwylanod Môr y Canoldir] yng nghanol symudiad o 700 o wylanod penddu a basiodd mewn 3 awr. Yn wahanol i'r adar eraill, roedd y gwylanod yn cadw'n agos iawn i'r lan. Yn Aberdaron echdoe lle gawsom ni symudiad mawr o jibincs - dwn i'm faint, ella 2000! - ynghyd ag ehedyddion, corehedyddion, llinosiaid gwyrdd ac ambell bila, pinc y mynydd, llinos bengoch a bras y cyrs yn eu canol. Porth Meudwy yn llawn o fwyalchod ac un fwyalchen y mynydd yn eu canol nhw. Hefyd ym Mhorth Meudwy nifer o fantell goch ac un yr un o fantell dramor a chopr bach.

Rhys Jones